# Cronfa Croeso i Feicwyr 2026-2027/28

# (Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)

# Nodiadau Cyfarwyddyd

## 1. Cyflwyniad a phwrpas y gronfa

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar wneud cais am gymorth gan y Gronfa Croeso i Feicwyr, cronfa gyfalaf a fydd yn cefnogi Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i sicrhau gwelliannau i'w harlwy twristiaeth feicio.

Ym mis Gorffennaf 2027, am y tro cyntaf erioed, bydd Cymru'n cynnal un o gymalau ras fyd-enwog y Tour de France. Mae'r digwyddiad yn gyfle byd-eang sylweddol i ddangos bod Cymru yn gyrchfan o'r radd flaenaf, ac i gyflymu ein huchelgais i sefydlu Cymru fel cenedl feicio flaenllaw. Yn y cyd-destun hwnnw, bydd Cronfa Croeso i Feicwyr yn buddsoddi mewn seilwaith a chyfleusterau sy'n gwneud Cymru'n fwy croesawgar i feicwyr, gan helpu i dyfu twristiaeth feicio, cefnogi economïau lleol a manteisio i'r eithaf ar fuddion hirdymor cynnal y digwyddiad eiconig hwn.

Yn 2025 comisiynodd Croeso Cymru ddau ddarn o ymchwil a gyhoeddwyd[1], a arweiniodd at ymarfer strategol i fapio'r hyn oedd gan Gymru i'w gynnig o ran twristiaeth feicio. Nododd yr astudiaeth fod gan Gymru eisoes arlwy beicio rhagorol ac amrywiol, sy'n cwmpasu marchnadoedd beicio mynydd, ar y ffyrdd, ar raean, er mwyn hamddena a'r farchnad e-feiciau sy'n dod i'r amlwg. Mae Cymru eisoes yn cynnig profiadau beicio cadarn ledled y wlad, sy'n rhychwantu ein harfordir, ein cefn gwlad, ein trefi a'n dinasoedd. Fodd bynnag, mae rhai o'r prif heriau yn cynnwys anghysondebau yn y profiadau ar lawr gwlad. Yn aml, nid oes yna gydgysylltu rhwng y cynigion 'meddal' ategol a'r llety, lletygarwch, atyniadau a gwasanaethau eraill i ymwelwyr, ac mae diffyg gwelededd mewn perthynas â darpariaeth sy'n addas i feicwyr, megis marciau llwybrau, a chyfleusterau cysylltiedig.

Rydym am gefnogi Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled Cymru i ddarparu dull penodol a chydgysylltiedig o wella seilwaith beicio, gwella

[1] Cymru ar Ddwy Olwyn: Profiadau a Disgwyliadau Beicwyr; Ymchwil i anghenion beicwyr ar gyfer taith berffaith | Diwydiant

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Crown copyright xxxx Digital ISBN

profiad ymwelwyr yn ogystal â bod o fudd i bobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru.

## 2. Pa brosiectau fydd y gronfa'n eu cefnogi?

Nod y Gronfa Croeso i Feicwyr yw datblygu rhwydwaith cydlynol o gyrchfannau, lleoliadau a mannau ar hyd y daith, sy'n bodoli eisoes, a'u cysylltu â llwybrau cydnabyddedig, o dan frand cyson Croeso Cymru, sef "***Croeso i Feicwyr***", sy'n cyd-fynd â Gwobr Croeso i Feicwyr presennol Croeso Cymru.

Bydd y gronfa yn cefnogi ymyriadau i greu cynnig cenedlaethol gweladwy, cydgysylltiedig sy'n cryfhau apêl Cymru fel cyrchfan feicio drwy ddatblygu profiadau cyson, o ansawdd uchel ar gyfer ymwelwyr sy'n canolbwyntio ar feicio, yn ogystal â'r ymwelwyr hynny sy'n beicio *rhywfaint* tra maent yng Nghymru. Bydd hynny yn ei dro yn cefnogi economïau lleol.

**Enghreifftiau o ymyriadau**

- Llogi Beiciau (gan gynnwys trelars i annog gweithgarwch teuluol)
- Mannau gwefru e-feiciau
- Gorsafoedd golchi beiciau
- Stondinau cynnal a chadw beiciau
- Cyflenwadau dŵr yfed
- Mannau parcio beiciau (rheiliau, raciau) a storio beiciau (yn ddiogel)
- Marcwyr llwybrau
- Arwyddion (gan gynnwys rhai sy'n cyfeirio at gysylltedd trafnidiaeth)

Dylai pob prosiect fod yn gysylltiedig â Chynlluniau Rheoli Cyrchfannau awdurdodau lleol, Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol, Cynlluniau Trefi neu gynlluniau cyfatebol.

Rhaid i bob cais ddangos yn glir sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at y canlynol:

**(i) Ysgogi cynhyrchiant busnes a thwf economaidd**

Rhaid i geisiadau ddangos yn glir sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at gynhyrchiant busnes ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy drwy dwristiaeth feicio. Dylai prosiectau gyflawni'r canlynol:

- Lleoli beicio i fod yn sbardun allweddol ar gyfer twf twristiaeth, gwariant uwch, pobl yn aros yn hirach a phobl yn ymweld drachefn.
- Datblygu neu wella llwybrau beicio presennol, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng asedau twristiaeth allweddol gan gynnwys llety, lletygarwch, atyniadau, a gwasanaethau eraill i ymwelwyr.
- Darparu seilwaith drwy ymyriadau sy'n cryfhau gwydnwch tymhorol ac yn cefnogi arlwy drwy gydol y flwyddyn.
- Hybu mwy o ryngweithio rhwng ymwelwyr a busnesau lleol;

ac o leiaf dwy o'r blaenoriaethau canlynol:

**(ii) Profiadau o Ansawdd Uchel ar gyfer Ymwelwyr**

Rhaid i geisiadau ddangos sut y bydd y prosiect yn darparu profiadau beicio unigryw a chynhwysol o ansawdd uchel, sy'n arddangos Cymru fel cyrchfan feicio flaenllaw. Dylai prosiectau gyflawni'r canlynol:

- Creu profiadau beicio cydlynol, sydd wedi'u cysylltu'n dda ac yn hawdd eu defnyddio sy'n gwella hyder ymwelwyr a llif y daith.
- Gwella seilwaith cefnogol gan gynnwys arwyddion, darpariaethau dehongli, mannau gorffwys, a chyfleusterau hanfodol i ymwelwyr i wella'r profiad cyffredinol.
- Sicrhau hygyrchedd a chynhwysiant ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys teuluoedd, beicwyr llai hyderus a defnyddwyr e-feiciau.
- Datblygu profiadau sy'n adlewyrchu'r hunaniaeth leol ac yn cryfhau'r ymdeimlad o le.
- Dangos eu bod yn integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus a rhwydweithiau teithio llesol ehangach.

**(iii) Profiadau Diwylliant, Treftadaeth a Thirwedd**

Rhaid i geisiadau ddangos sut y mae beicio yn cael ei ddefnyddio fel modd i brofi a dathlu diwylliant, treftadaeth, tirweddau a chymunedau unigryw Cymru, gan greu profiadau nodweddiadol a chofiadwy i ymwelwyr, sy'n ddilys ac yn neilltuol Gymreig. Dylai prosiectau gyflawni'r canlynol:

- Ymgorffori'r gelfyddyd o adrodd straeon mewn llwybrau beicio, gan ddod â straeon, hanes a diwylliant Cymru yn fyw drwy ddarpariaethau dehongli, cynnwys digidol a phrofiadau ar y safle.
- Datblygu llwybrau a theithiau thematig (ee llwybrau treftadaeth, llwybrau diwylliannol neu brofiadau bwyd a diod) sy'n creu cynigion clir a chymhellol y gall ymwelwyr eu harchebu.
- Cryfhau cysylltiadau rhwng llwybrau beicio ac asedau treftadaeth a diwylliannol allweddol.
- Cynnwys dulliau cydweithredol gyda sefydliadau fel CADW, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac atyniadau lleol eraill i greu profiadau cyfoethocach a chydgysylltiedig.
- Gwella profiad ymwelwyr drwy olygfannau, cyfleusterau gorffwys a darpariaethau dehongli wedi'u cynllunio'n dda, sy'n amlygu tirweddau Cymru ac ymdeimlad o le.

**iv) Cydweithio a Phartneriaethau**

Rhaid i geisiadau ddangos sut y bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu a'i gyflawni drwy gydweithio effeithiol, gan gyfrannu at arlwy twristiaeth feicio mwy cydgysylltiedig a chydlynol ledled Cymru. Dylai prosiectau gyflawni'r canlynol:

- Dangos bod yna waith partneriaeth cryf rhwng rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, busnesau twristiaeth, atyniadau, a darparwyr trafnidiaeth, i ddarparu arlwy cydlynol i ymwelwyr.
- Annog cydweithio ar draws cyrchfannau a, lle bo hynny'n briodol, ar draws ffiniau awdurdodau lleol i gefnogi rhwydwaith beicio mwy cydgysylltiedig a chydlynol.
- Cyflawni gwaith ymgysylltu â sefydliadau cenedlaethol (ee Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Trafnidiaeth Cymru) a phartneriaid yn y sector i gynyddu maint y prosiect, a gwella'i gyrhaeddiad a'i ansawdd.
- Cefnogi dull gweithredu cydgysylltiedig ar lefel cyrchfannau, gan sicrhau bod seilwaith beicio, profiadau a gwasanaethau beicio ategol yn cael eu datblygu mewn ffordd gyflenwol ac integredig.
- Cryfhau cysylltiadau â busnesau lleol a'r economi ymwelwyr ehangach, gan sicrhau bod manteision yn cael eu rhannu ar draws cymunedau a chadwyni cyflenwi.
- Dangos bod yna waith ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid drwy gydol cyfnod datblygu a chyflawni prosiectau, gan gynnwys llywodraethiant, rolau a chyfrifoldebau clir.
- Cyfrannu at ddull gweithredu cyson, ledled Cymru, sy'n cyd-fynd ag uchelgais Croeso Cymru i ddarparu arlwy beicio cenedlaethol o ansawdd uchel, wedi'i ddiffinio'n glir.

### (v) Cefnogi Pobl, Cymunedau, Iechyd a Llesiant

Rhaid i geisiadau ddangos sut y bydd y prosiect yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl a chymunedau, gan gefnogi iechyd, llesiant a chyfranogiad cynhwysol drwy feicio. Dylai prosiectau gyflawni'r canlynol:

- Cefnogi cyfleoedd ar gyfer defnydd gan y gymuned a budd i'r gymuned, gan sicrhau bod seilwaith a phrofiadau beicio ar gael i ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd.
- Hyrwyddo beicio fel gweithgaredd hygyrch a chynhwysol sy'n cefnogi iechyd corfforol, llesiant meddyliol a chysylltiadau cymdeithasol.
- Annog cyfranogiad gan ystod eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol, trigolion lleol a chymunedau sydd â mynediad cyfyngedig at gyfleoedd beicio.
- Darparu seilwaith a phrofiadau sy'n ddiogel, yn groesawgar ac yn hawdd i'w defnyddio, gan helpu i fagu hyder ac annog defnydd rheolaidd.
- Galluogi cymunedau i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflawni prosiectau, gan sicrhau bod anghenion, gwybodaeth a blaenoriaethau lleol yn cael eu hadlewyrchu.
- Cryfhau balchder a pherchnogaeth gymunedol drwy greu lleoedd a phrofiadau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan bobl leol yn ogystal ag ymwelwyr.
- Cyfrannu at ganlyniadau llesiant ehangach, gan gynnwys ffyrdd mwy egnïol o fyw, llai o deimlo'n ynysig a chymunedau cryfach, mwy gwydn.

## 3. Lefel y cyllid sydd ar gael ac amserlen cyflenwi

- Cyfanswm y grant sydd ar gael fesul prosiect yw £100,000 gydag uchafswm cyfradd o 80%; fodd bynnag, gall Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyflwyno mwy nag un Datganiad o Ddiddordeb (EOI).
- Nid oes isafswm grant.
- Rhaid i'r ymgeisydd ysgwyddo unrhyw gynnydd yng nghostau'r prosiect ar ôl dyfarnu cyllid.
- Gall prosiectau gael eu cymeradwyo i'w cyflawni dros un neu ddwy flwyddyn ariannol (lle bo hynny'n briodol).
- Os bydd eich Datganiad o Ddiddordeb (cam 1) yn llwyddiannus, fe'ch gwahoddir i gyflwyno cais llawn (cam 2).
- Anfonir hysbysiadau llwyddiannus cam 2 o 26 Hydref 2026 ymlaen.
- Rhaid i brosiectau sy'n cael eu cyflawni o fewn un flwyddyn ariannol (2026–2027) gael eu cwblhau, gyda'r holl wariant wedi'i wneud a'i hawlio erbyn 1 Mawrth 2027.
- Os gall prosiect gyfiawnhau'r angen am amserlen hirach, gellir ariannu'r prosiect dros ddwy flwyddyn ariannol. Ar gyfer prosiectau sy'n ymestyn dros ddwy flwyddyn ariannol, rhaid i'r holl wariant gael ei wneud a'i hawlio erbyn 31 Ionawr 2028.

## 4. Cymhwystra

### Pwy all wneud cais?

Bydd Cronfa Croeso i Feicwyr 2026-/28 yn canolbwyntio ar leoliadau sydd eisoes â chynigion beicio a fydd, gyda buddsoddiad mewn gwell seilwaith beicio, â'r potensial i ddod yn **gyrchfannau** beicio rhagorol.

Mae'r cynllun eleni yn agored i:

- Awdurdodau Lleol
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Rhaid i bob prosiect ddangos cydweithrediad mewn partneriaeth â phartneriaid cyrchfannau ehangach ac ymgynghori ar draws sectorau (er enghraifft, gydag adrannau trafnidiaeth/hawliau tramwy cyhoeddus/hamdden). Bydd angen i Awdurdodau Lleol ddangos eu bod wedi ymgysylltu â phartneriaid cyrchfannau ehangach a chyda'r Partneriaethau/Sefydliadau Rheoli Cyrchfannau lle maent wedi'u sefydlu. Anogir Awdurdodau Lleol a Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i gynnwys prosiectau a gyflawnir gan y trydydd sector a sefydliadau nid-er-elw eraill yn eu ceisiadau.

### Gweithgareddau Cymwys

- Mae ffioedd proffesiynol cymwys y gellir eu trin fel costau cyfalaf yn gymwys. Fodd bynnag, ni all y ffioedd hyn fod yn fwy nag 20% o gyfanswm costau'r prosiect, a rhaid iddynt ymwneud â thasgau untro sy'n benodol i gyflawni'r prosiect, ee rheoli prosiectau contractwyr, ffioedd dylunwyr, penseiri a chynllunio, neu adroddiadau diogelwch y ffyrdd ac archwiliadau technegol/arbenigol. Gall y rhain fod ar ffurf gwariant mewnol, a bydd arnom angen tystiolaeth (ee anfonebau) o'r costau a ysgwyddir.
- Dim ond os gellir eu trin fel costau cyfalaf y mae costau gweithdai yn gymwys, er enghraifft os ydynt yn cael eu cyflwyno gan ymgynghorwyr ac nid gan aelodau presennol o staff.
- Dim ond os ydynt wedi'u cynnwys gyda'ch hawliad terfynol yr ystyrir bod costau dargadw yn gymwys, a rhaid dangos y symiau dargadw ar yr anfoneb/au.

**Nid** yw'r gweithgareddau canlynol yn gymwys ac **ni** fyddant yn cael eu hystyried i gael cyllid:

- Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw cyffredinol.
- Costau refeniw fel marchnata, gorbenion ac amser aelodau mewnol/presennol o staff ar gyfer rolau cydgysylltu.
- Eitemau traul a chost isel.
- Costau cyllid cyfatebol mewn nwyddau neu wasanaethau.
- Costau llogi ystafelloedd a lletygarwch.
- Gwariant cyn dyddiad dechrau'r prosiect.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr, a bydd y costau'n cael eu hadolygu yn ystod y cyfnod cynnig.

## 5. Y Broses Ymgeisio

Mae dyddiadau agor y gronfa a'r amserlen fel a ganlyn:

| Dyddiad | Cam y prosiect |
|---|---|
| 7 Awst 2026 | Dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb (1pm) |
| O 24 Awst 2026 ymlaen | Y cam ymgeisio yn dechrau |
| 2 Hydref 2026 | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau (1pm) |
| O 26 Hydref 2026 ymlaen | Cyhoeddi llythyrau cynnig grant |

Os ydych yn cyflwyno mwy nag un Datganiad o Ddiddordeb (EOI), bydd angen i chi roi eich Datganiadau o Ddiddordeb mewn trefn flaenoriaeth.

**Asesu Prosiectau**

Mae hon yn broses gystadleuol mewn dau gam:

**Cam 1 (Mynegi Diddordeb)**: Ar ôl cyflwyno'r ffurflen Mynegi Diddordeb yn y Gronfa Croeso i Feicwyr, cynhelir gwiriadau i sicrhau bod y meini prawf cymhwystra wedi'u bodloni.

Bydd pob ffurflen Mynegi Diddordeb (EOI) yn cael ei hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- A yw'r sefydliad yn gymwys i wneud cais?
- A yw'r gweithgaredd/gwariant yn gymwys o dan y cynllun?
- A yw'r ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'r flaenoriaeth *Ysgogi cynhyrchiant busnes a thwf economaidd* ac o leiaf dwy o flaenoriaethau eraill y gronfa?
- A yw'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth o waith ymgynghori/trafodaethau gyda phartneriaid cyrchfannau ehangach?
- A yw'r ymgeisydd yn berchen ar yr holl dir sy'n berthnasol i'r prosiect neu a oes ganddo gytundeb prydles ar waith am o leiaf 5 mlynedd?
- Os ydych yn gwneud cais am brosiect tymor byr, a ellir ei gyflawni, gyda'r holl gostau wedi'u hysgwyddo a'u hawlio erbyn 01 Mawrth 2027?
- Os ydych yn gwneud cais am brosiect dwy flynedd, a oes angen clir am yr amser cyflawni ychwanegol, ac a ellir cyflawni'r prosiect, gyda'r holl gostau wedi'u hysgwyddo a'u hawlio erbyn 31 Ionawr 2028?
- Os oes angen caniatâd cynllunio, a yw'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth o drafodaethau cychwynnol gyda'r awdurdod cynllunio lleol?
- A yw'r swm y gofynnir amdano a'r gyfradd ymyrraeth yn unol â chanllawiau'r cynllun?
- A ellir cefnogi'r prosiect o dan y rheolau rheoli cymorthdaliadau?

Gwahoddir EOIs sy'n bodloni'r holl feini prawf cymhwystra i gyflwyno cais llawn. Nid yw pasio'r cam EOI yn gwarantu y bydd y prosiect yn llwyddiannus yn yr ail gam (y broses Ymgeisio).

Yn ystod yr asesiad EOI, efallai y byddwn yn nodi rhai elfennau o'r cais a ystyrir yn anghymwys neu nad ydynt yn cyd-fynd yn ddigonol â blaenoriaethau'r gronfa. Yn y sefyllfa hon, cewch wybod am y canlyniad a disgwylir i chi gael gwared ar yr elfennau hynny o'ch cais llawn a diwygio eich costau yn unol â hynny.

**Cam 2 (Ceisiadau Llawn)**: Caiff y ceisiadau llawn eu hasesu a'u sgorio yn erbyn y meini prawf a amlinellir isod.

Mae hon yn broses gystadleuol a dim ond y ceisiadau sy'n sgorio uchaf fydd yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo.

Caiff y ceisiadau llawn eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

| **Meini Prawf Arfarnu** |
|---|
| **Ansawdd y Prosiect** (pwysoliad x10)<br>• Ansawdd syniad/cysyniad y prosiect<br>• Ansawdd cyffredinol y cais a'r disgrifiad o'r cynnig |

| |
|---|
| • Manteision ac effaith - Rhaid i ymyriadau gael eu clystyru o amgylch cyrchfannau beicio strategol |
| **Cydweddu Strategaethau** (pwysoliad x5)<br>• Aliniad â blaenoriaethau'r Gronfa Croeso i Feicwyr fel yr amlinellir uchod<br>• Yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau eu hunain o ran cyrchfannau/seilwaith awdurdodau lleol |
| **Tystiolaeth o Angen** (pwysoliad x5)<br>• Rhesymau dros ymgymryd â'r gweithgaredd<br>• Rhesymau dros bwysigrwydd strategol y lleoliad/au a ddewiswyd<br>• Tystiolaeth ac ymchwil ynghylch anghenion y farchnad/adborth gan ddefnyddwyr |
| **Risgiau, Gweithredu a Chyflawni'r Prosiect** (pwysoliad x10)<br>Ansawdd yr wybodaeth a ddarperir ar gyfer y canlynol:<br>• Cynllun y Prosiect<br>• Cyflwynwyd caniatâd cynllunio ac amserlen<br>• Cymeradwyaeth ar gyfer Draenio Cynaliadwy os oes angen, ac amserlen<br>• Risgiau amgylcheddol<br>• Cytundebau perchnogaeth tir neu brydles ar waith<br>• Asesu a lliniaru risg<br>• Tîm rheoli prosiect a strwythur<br>• Amserlen hawliadau<br>• Hanes blaenorol o gyflawni prosiectau |
| **Canlyniadau'r Prosiect** (pwysoliad x5)<br>• Ansawdd canlyniadau'r prosiect<br>• Ansawdd yr wybodaeth a ddarperir am sut y caiff effaith y prosiect ei fonitro |
| **Costau'r Prosiect a Gwerth am Arian** (pwysoliad x10)<br>• Mae'r cynnig cyffredinol yn cynrychioli gwerth am arian i Lywodraeth Cymru<br>• Mae costau'r prosiect yn dderbyniol<br>• Mae'r manteision disgwyliedig yn gymesur â chostau<br>• Mae'r arian cyfatebol wedi ei nodi a'i gadarnhau<br>• Mae'r angen am yr arian grant yn glir<br>• A fydd y cyfleusterau ar agor drwy gydol y flwyddyn |

## 6. Cymeradwyaeth a Phenderfyniad

Cewch wybod am y penderfyniad a'r rhesymau drosto. Mae hon yn gronfa ddewisol ac os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, bydd llythyr Dyfarnu Grant yn cael ei gyhoeddi. Nid oes proses apelio ar gyfer y gronfa hon. Ni ddylid 'dechrau gweithio' ar y prosiect, nac ymgymryd ag unrhyw ymrwymiad ffurfiol cyn y penderfyniad gan y bydd hyn yn dirymu'r cais. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol nac yn atebol am unrhyw gostau a ysgwyddir wrth baratoi'r cais. Er ein bod yn gwahodd Mynegiadau o Ddiddordeb, caiff hyn ei wneud ar sail dros dro yn unig ac ni allwn wneud unrhyw

ymrwymiadau ariannol nes bod dyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i gadarnhau.

## 7. Y Broses Hawlio

Fel rhan o'r broses ymgeisio lawn, bydd angen i chi ddarparu proffil taliadau ar gyfer cyfnod cyllido llawn eich prosiect. Os bydd y prosiect yn cael ei gyflawni dros ddwy flwyddyn ariannol, bydd angen i chi nodi eich gwariant ar gyfer blwyddyn 1 a blwyddyn 2.

Bydd o leiaf 3 chyfnod hawlio gorfodol ar gyfer prosiect sy'n cael ei gwblhau erbyn 1 Mawrth 2027 ac o leiaf 6 chyfnod hawlio gorfodol ar gyfer y prosiectau hynny a gefnogir tan 31 Ionawr 2028. Rhaid cyflwyno hawliadau yn unol â'r proffil taliadau y cytunwyd arno, neu gallai'r cyllid gael ei golli.

Bydd y proffil taliadau yn cael ei nodi yn y Llythyr Cynnig Grant.

Polisi Llywodraeth Cymru yw talu mewn ôl-daliadau. Bydd ôl-daliadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar gostau **a ysgwyddir** pan ddarperir tystiolaeth ategol.

Bydd yn rhaid cyflawni pob prosiect yn unol ag amserlen benodol a bydd targedau cyflawni yn cael eu cynnwys yn y Llythyr Cynnig Grant. Mae sicrhau arbenigedd rheoli prosiect yn bwysig iawn oherwydd oni lwyddir i gadw at y targedau cyflawni, gallai'r prosiect golli arian.

Rhaid cyflwyno ffurflenni hawlio yn electronig a rhaid cynnwys tystiolaeth gwariant fel y nodir yn y llythyr dyfarnu grant ynghyd â diweddariad prosiect, cynllun cynnydd a blaengynllun. Gall diweddariadau gynnwys tystiolaeth ffotograffig. Os yw hawliadau'n anghyflawn neu'n anghywir, gall hyn arwain at oedi wrth dalu.

## 8. Arian Cyfatebol ac Arian Ategol

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau'r arian cyfatebol sy'n weddill i dalu am holl gostau'r prosiect. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth gyda'ch cais bod yr arian cyfatebol wedi'i gadarnhau. Gall yr arian cyfatebol ddod o ffynonellau cyllid cyhoeddus eraill. Cyfeirir at rai ohonynt isod. Pan fo'r arian cyfatebol yn gymhorthdal, rhaid i gyfanswm y cyllid fodloni gofynion Rheoli Cymorthdaliadau. Ni allwn dderbyn arian cyfatebol mewn nwyddau neu wasanaethau.

Ffynonellau posibl o Arian Cyfatebol/Ategol i'w hystyried:

| | |
|---|---|
| Grantiau Gwella Mynediad | Darperir grant Llywodraeth Cymru i bob Awdurdod Lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd â chyfrifoldebau hawliau tramwy cyhoeddus. Nod y grant yw gwella mynediad i gefn gwlad, mannau gwyrdd a thir mynediad agored. Darperir y grant drwy fformiwla ac fe'i bwysolir yn ôl hyd yr hawliau tramwy cyhoeddus, cyfanswm y tir mynediad a'r boblogaeth. |

| | |
|---|---|
| Y Gronfa Twf Lleol | Mae'r Gronfa Twf Lleol yn disodli arian a oedd yn arfer dod o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Gronfa Twf Lleol yn cyflawni yn unol â Chenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru ac agenda Llywodraeth y DU ar gyfer twf, a bydd yn para am gyfnod o dair blynedd. |
| Llwybr Arfordir Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n arwain gwaith Llywodraeth Cymru o ddosbarthu grant y Llwybr. |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig | Rydym yn argymell bod ymgeiswyr yn ymgysylltu â'u Cyd-bwyllgor Corfforedig i archwilio i weld a allai unrhyw arian cyfatebol neu arian ategol fod ar gael i gefnogi'r prosiect. |

## 9. Cyflawni Prosiectau – Monitro

Bydd llwyddiant y gronfa Croeso i Feicwyr yn cael ei fesur yn ôl nifer y cyfleusterau o ansawdd i ymwelwyr, yn rhai newydd ac yn rhai y gwnaed gwelliannau iddynt, mewn cyrchfannau beicio allweddol a fydd yn arwain at well boddhad ymhlith ymwelwyr a phobl leol, a thueddiad i ymwelwyr ddychwelyd.

Ar lefel y prosiect, bydd angen i chi ddangos sut y byddwch yn mesur llwyddiant eich prosiect yn erbyn y canlyniadau canlynol:

- defnydd (nifer yr ymwelwyr beicio) a mynediad gan ymwelwyr
- boddhad ymhlith ymwelwyr a phobl leol

Gellid mesur canlyniadau'r prosiect drwy gasglu a monitro adborth gan ymwelwyr a phobl leol, ee adborth a ddarperir ar y cyfryngau cymdeithasol neu drwy arolygon ymwelwyr; monitro cwynion gan ymwelwyr; casglu niferoedd yr ymwelwyr drwy ddyfeisiau cyfrif ymwelwyr a thystiolaeth ffotograffig. Gan ystyried y costau sy'n gysylltiedig â mesurau o'r fath.

Rydym yn disgwyl i ddata monitro gael eu casglu a'u cofnodi yn unol â'r canlyniadau am o leiaf 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect a bydd hyn yn un o amodau'r grant. Byddwn yn gweithio gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus i ddatblygu trefniadau monitro a gwerthuso priodol, gan adlewyrchu natur y lleoliad a'r math o ymyrraeth a gyflwynir.

## 10. Cyflawni gweithredol

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd nodi trefniadau cyflawni gweithredol eu prosiectau sy'n ymwneud â chynnal a chadw a glanhau, mynediad ac amseroedd agor. Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos pa fesurau y byddant yn eu cymryd i ymestyn eu horiau agor presennol y tu hwnt i'r hyn y maent yn ei gynnig ar hyn o bryd.

## 11. Cyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau y DU

Ar 4 Ionawr 2023, daeth y gyfundrefn newydd ar gyfer rheoli cymorthdaliadau y DU i rym.

Er mwyn penderfynu a yw cynllun arfaethedig neu ddarpariaeth cymorth unigol yn 'gymhorthdal', bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'r dyfarniadau cyllid yn bodloni'r pedwar maen prawf o dan gyfundrefn cymhorthdal y DU cyn dyfarnu.

Os bernir bod y dyfarniad yn gymhorthdal, yna bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellir gwneud y dyfarniad naill ai o dan Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) lle nad yw'r cymorth yn fwy na £315,000.00 dros dair blynedd gyllidol (y flwyddyn bresennol ynghyd â dwy flynedd flaenorol), cynllun cymhorthdal cofrestredig perthnasol gan Lywodraeth Cymru, neu ddyfarniad annibynnol lle bydd angen bodloni pob un o'r 7 egwyddor rheoli cymhorthdal. Bydd angen i'r dyfarniad fodloni amodau'r llwybr cymorth a ddewisir, a nodir yn eich llythyr dyfarnu grant.

## 12. Caffael

Bydd yn ofynnol i bob prosiect ddilyn polisi caffael eu sefydliad wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau gyda grant a ddyfernir o dan y gronfa hon. Efallai y byddwn o bryd i'w gilydd yn gofyn am dystiolaeth gennych i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'ch polisïau caffael.

## 13. Y Gymraeg

Dylai ymgeiswyr ofyn am gyngor cynnar ynghylch gofynion dwyieithog eu prosiectau a sicrhau eu bod wedi cael eu costio a'u cynnwys yn eu cynigion. Dyma'r gofynion o ran y Gymraeg sy'n ymwneud â'r gronfa hon:

- arwyddion, deunyddiau addysgol, rhyngweithiol a deongliadol dwyieithog
- cyhoeddusrwydd dwyieithog yn ymwneud â'r prosiect.

## 14. Cyhoeddusrwydd

Bydd angen i chi gydnabod y gefnogaeth ar yr holl gyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata a gynhyrchir fel rhai sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i gydnabyddiaeth o'r fath fod ar ffurf a gymeradwyir gennym ymlaen llaw a rhaid iddo gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru. Caiff yr holl ofynion eu hamlinellu'n glir yn y llythyr cymeradwyo grant.

## 15. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol – Datganiad Preifatrwydd

Llywodraeth Cymru yw'r Rheolwr Data ar gyfer unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych. Gallai'r wybodaeth a gesglir gael ei rhannu gydag asiantaethau atal twyll fydd yn ei defnyddio i osgoi twyll a gwyngalchu arian ac i gadarnhau pwy ydych. Cewch wybod rhagor isod ynghylch sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym a'r asiantaethau atal twyll hyn.

Bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i brosesu a gweinyddu'r cais hwn. Gellir rhannu'r wybodaeth a ddarperir yma ac yn y gwaith papur cysylltiedig yn gyfrinachol â sefydliadau ariannu cyhoeddus eraill, a chynghorwyr technegol allanol (fel y bo'n briodol). Mae angen inni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y cynllun. Os na

fyddwch yn darparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol, gallai olygu na fyddwn yn gallu asesu'r cais yn llawn.

Bydd yr wybodaeth a gesglir ar gael i dimau gwasanaethau cymorth Llywodraeth Cymru a'i gweinyddwyr technegol sy'n cynnal y system technoleg gwybodaeth ei gweld. Ni fydd gweinyddwyr y system dechnegol yn defnyddio eich manylion mewn unrhyw ffordd.

Rhoddir esboniad o'r cyfnod cadw ar gyfer y data a ddelir gennym yn yr hysbysiad preifatrwydd atodedig, ynghyd â'ch hawliau o dan Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data.

## 16. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y 'nodau llesiant'. Mae'r saith nod llesiant yn dangos y Gymru yr hoffem ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni'r holl nodau, nid un neu ddau ohonynt yn unig. Lluniwyd amcanion y gronfa i adlewyrchu'r holl nodau llesiant.

## 17. Rhagor o Wybodaeth

I drafod eich cais neu syniadau am brosiect, cysylltwch â

CronfaCroesoiFeicwyr@llyw.cymru